

Twyll Rhamant



Mae twyll rhamant yn digwydd pan fyddwch chi'n meddwl eich bod wedi cyfarfod eich partner perffaith ar wefan neu ap chwilio am gariad, ond mewn gwirionedd, mae'r unigolyn arall yn defnyddio proffil ffug i feithrin perthynas â chi. Maen nhw'n defnyddio'r safle er mwyn gwneud i chi ymddiried ynddyn nhw cyn gofyn i chi am arian, neu er mwyn cael digon o'ch gwybodaeth bersonol i allu dwyn eich manylion i esgus bod yn chi.

Sut mae'n digwydd?

Mae twyllwyr rhamant yn feistri twyll ac yn fodlon gwneud unrhyw beth i greu realiti ffug lle mae'r unigolyn yn teimlo eu bod yn gwneud penderfyniadau rhesymol a synhwyrol.

Gwadu

Yr her i deulu a ffrindiau dioddefwyr twyll rhamant yw ceisio torri ar y realiti ffug a grëwyd er mwyn gwneud i'r dioddefwr weld y sefyllfa go iawn, sef eu bod yn cael eu twyllo.

Mae twyllwyr rhamant yn defnyddio iaith i dwyllo, perswadio a cham-fanteisio. Maen nhw'n camliwio'r hyn y mae'r dioddefwr yn ei ystyried yn realiti mewn ffordd debyg i feithrin perthynas amhriodol, cam-drin domestig a rheoli drwy orfodaeth.

Gall ddioddefwyr twyll rhamant deimlo eu bod yn gwneud penderfyniadau call a rhesymol, ond dyma sy'n ei gwneud yn anodd iddyn nhw sylweddoli beth sy'n digwydd, er ei fod yn gwbl amlwg i unigolion ar y tu allan fel arfer.

Mae twyllwyr yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n codi amheuan pan fyddan nhw'n gofyn am arian ac angen i'r dioddefwr eu helpu ar frys neu'n gyfrinachol. Dydi ceisiadau anniogel o'r fath ddim yn cael eu gwneud yn amlwg, a gall y twyllwr eu cuddio mewn straeon sydd i'w gweld yn rhesymol ac yn ddisgwyliedig. Er enghraifft, gall y twyllwr

y addeddangos yn 'anfodlon' cyfaddef bod ganddyn nhw bryderon iechyd, eu bod yn fregus neu ddweud eu bod eisiau diogelu'r berthynas.

Mae twyllwyr yn cynnig gwybodaeth yn gynnar yn y sgwrs sy'n ymddangos yn ddiniwed ac yn ddisgwyliedig, fel manylion am eu bywyd cartref, eu busnes neu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yna mae'n nhw'n cyfeirio at y wybodaeth hon yn nes ymlaen fel tystiolaeth i gefnogi eu stori, ac mae'n golygu bod ceisiadau am arian i'w gweld yn ddilys, yn rhesymol ac yn bosib eu cyfiawnhau.

Mae dieithrio'r dioddefwyr oddi wrth y bobl all gynnis cymorth a chwestiynu realiti yn bwysig i'r twyllwyr, ac mae'n ei gwneud yn

haws twyllo'r dioddefwr.

DYLECH BOB AMSER:

- Fod yn wylidwrs rhag datgelu gwybodaeth bersonol amdanoch chi eich hun ar lein.
- Aros ar blatfform anfon negeseuon y safle os mai drwy safle chwilio am gariad y gwnaethoch chi gwrdd.
- Cofio y gall unrhyw un esgus bod yn rhywun arall ar-lein.
- Bod yn wylidwrs os bydd rhywun yn eich annog i gadw cyfrinachau rhag eich teulu a'ch ffrindiau.

ARHOSWCH : Gallai cymryd munud i feddwl cyn rhoi eich arian neu ddatgelu eich gwybodaeth eich cadw'n ddiogel.

HERIWCH: Allai hyn fod yn ffug? Mae'n iawn gwrthod neu anwybyddu unrhyw gais. Dim ond troseddwy'r wnaiff geisio eich rhuthro neu eich dychryn chi.

DIOGELWCH: Cysylltwch â'ch banc ar unwaith os ydych chi'n credu eich bod wedi cael eich twyllo gan sgam, a rhowch wybod i Action Fraud am hyn.